

Blurb:

Mae Book Trust yn trawsnewid bywydau drwy gael plant a theuluoedd i ddarllen. Rydym yn annog ac yn cefnogi darllen er mwyn pleser ym mhob oed drwy raglenni a dargedwyd a rhai cyffredinol a thrwy gynlluniau sy'n hyrwyddo hoffter o ddarllen, yn cynnwys Llenor Plant a phob math o wobrau. www.booktrust.org.uk

Caiff ein rhaglenni yng Nghymru eu hariannu gan Lywodraeth Cymru a'u cyflwyno drwy Book Trust Cymru, sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac sy'n gweithio ar draws Cymru. Rydym yn cydlynw'r rhaglen Dechrau Da, drwy weithio mewn partneriaeth â Llyfrgelloedd ac Ymwelwyr Iechyd i roi bagiau llyfrau a chanllawiau i helpu rhieni i bob plentyn yn ystod blwyddyn gyntaf eu bywyd ac eto yn ystod eu harchwiliad iechyd 18-24 mis. Rydym yn gweithio gydag ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru i hybu darllen ac i annog rhieni a gofalwyr i gymryd rôl athro ac athrawes cyntaf a phwysicaf eu plant.

Mae'n rhaglen ar gyfer disgyblion Derbyn yn rhoi adnoddau llythrennedd a rhifedd am ddim bob tymor i'r holl leoliadau a gynhelir yng Nghymru. Cynlluniwyd y rhain yn arbennig i gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen ac i annog rhieni a gofalwyr i chwarae rhan weithredol yn nysg eu plant. Mae rhaglen hyfforddiant ac ymgysylltu i ysgolion yn cyd-fynd â Pori Drwy Stori. www.poridrwystori.org.uk

Nod y rhaglen Letterbox club yw cynnig cymorth addysgol difyr i blant 5-13 oed sy'n derbyn gofal. Mae wedi bod yn rhedeg ers 2007 ac yng Nghymru ers 2009. Mae pob plentyn sy'n cymryd rhan yn derbyn parcel lliwgar o lyfrau, gweithgareddau mathemateg, papur ysgrifennu a deunyddiau tebyg eraill unwaith y mis am chwe mis, o fis Mai tan fis Hydref. Dyma'r tro cyntaf i nifer o blant gael llythyr neu barsel drwy'r post ac i rai dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu llyfrau eu hunain. Yng Nghymru, bydd Lywodraeth Cymru'n darparu cyllid i tua 800 o blant gymryd rhan yn y Letterbox Club, gyda rhai ardaloedd yn defnyddio cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion i alluogi mwy o blant i gymryd rhan.

Am ragor o wybodaeth am Book Trust Cymru, cysylltwch â helen.wales@booktrust.org.uk.
Am ragor o wybodaeth am y Letterbox Club, cysylltwch ag amy.harker@booktrust.org.uk